22100340

International Baccalaureate®
Baccalauréat International
Bachillerato Internacional

**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 2**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 2**

Friday 14 May 2010 (morning)
Vendredi 14 mai 2010 (matin)
Viernes 14 de mayo de 2010 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied. You may include in your answer a discussion of a Part 2 work of the same genre if relevant. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works will not score high marks.
- You are not permitted to bring copies of the works you have studied into the examination room.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Traitez un seul sujet de composition. Vous devez baser votre réponse sur au moins deux des œuvres de la 3e partie que vous avez étudiées. Le cas échéant, vous pouvez inclure dans votre réponse une discussion sur une œuvre du même genre littéraire étudiée dans la 2e partie du programme. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la 3e partie n'obtiendront pas une note élevée.
- Vous n'êtes pas autorisé(e) à amener des exemplaires des œuvres que vous avez étudiées dans la salle d'examen.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Elija un tema de redacción. Su respuesta deberá basarse en al menos dos de las obras estudiadas en la Parte 3. Se podrán hacer comentarios sobre una obra de la Parte 2 del mismo género, si fuera necesario. Las respuestas que no incluyan una discusión sobre al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán notas altas.
- No se permite traer a la sala de examen copias de las obras estudiadas.



© International Baccalaureate Organization 2010

https://xtremepape.rs/

*Ysgrifennwch draethawd ar* ***un*** *o'r cwestiynau hyn. Rhaid ichi seilio eich ateb ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3 a astudiwyd gennych. Yn eich ateb cewch gynnwys trafodaeth ar waith rhan 2 o'r un genre, os yw'n berthnasol.* ***Ni*** *roddir marciau uchel am atebion nad ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3.*

**Barddoniaeth**

**1.** "Nid yw amser yn stopio i neb." Cymharwch y gwahanol ffyrdd y mae'r beirdd yn archwilio effaith amser gan gyfeirio at ddwy neu dair cerdd gan wahanol feirdd.

**2.** "Dylai barddoniaeth ein deffro a'n cyffroi i wreiddyn ein bod." Pa gerddi a astudiwyd gennych a wnaeth eich cyffroi a sut yn union y llwyddodd y beirdd i wneud hynny? Cyfeiriwch at weithiau dau neu dri bardd a astudiwyd gennych.

**Drama**

**3.** "Y mwyaf a wyddom am y cymeriadau mewn drama, y mwyaf y credwn ein bod yn eu deall. Yna fe ddigwydd rhywbeth sy'n eu gosod mewn goleuni cwbl annisgwyl." Ystyriwch i ba raddau a pha mor llwyddiannus y mae'r dramodwyr wedi mabwysiadu'r dechneg hon mewn dwy neu dair o'r dramâu a astudiwyd gennych.

**4.** Trafodwch bwysigrwydd a'r defnydd a wneir o'r lleoliadau (*settings*) yn y dramâu a astudiwyd gennych. Dylid cyfeirio at ddwy neu dair drama yn eich ateb.

**Nofel**

**5.** "Dal diddordeb y darllenydd yw prif nod y nofelydd." Gan gyfeirio at weithiau dau neu dri nofelydd, disgrifiwch y technegau a ddefnyddiwyd ganddynt i ddal eich diddordeb chi.

**6.** "Mae nofelau yn ymwneud yn aml â themâu sy'n canolbwyntio ar newid." Cymharwch y ffyrdd y cyflwynir newid yn o leiaf ddwy nofel y gwnaethoch eu hastudio.

**Storïau Byrion**

**7.** Cymharwch o leiaf ddwy neu dair stori a ddarllenwyd gennych gan sôn am eu harddull, eu hadeiladwaith a'r modd y maent yn ymdrin â'u themâu.

**8.** "Disgwylir i stori lwyddiannus adlewyrchu argyfwng." I ba raddau y mae dwy neu dair stori fer gan wahanol awduron yn cadarnhau'r farn hon?



https://xtremepape.rs/

**Hunangofiant a Chofiant**

**9.** Pa mor realistig a chyflawn yw'r portread o'r gymdeithas y mae'r awduron neu'r prif gymeriadau yn byw ynddi, a pha mor effeithiol y disgrifiwyd dylanwad y gymdeithas ar eu bywydau? Dylid cyfeirio at ryw ddau neu dri gwaith gan wahanol awduron yn eich ateb.

**10.** "Tuedd cofiannydd a hunangofianydd yw delfrydu bywyd gan anwybyddu ei dristwch a'i ofid." I ba raddau y mae'r gweithiau a ddarllenwyd gennych yn cadarnhau'r farn hon, a pha mor berswadiol neu apelgar yw'r delfrydu hwn?

**Cwestiynau Cyffredinol**

**11.** Sut y portreadir y gwragedd o gymharu â'r dynion yn o leiaf ddau waith a astudiwyd gennych?

**12.** Pa mor amlwg yw safbwynt yr awdur yn y gweithiau a astudiwyd gennych? A fynegir y safbwynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu a gaiff ei guddio, a pha mor effeithiol y defnyddir y technegau hyn? Cyfeiriwch at ddau neu dri gwaith gan wahanol awduron.

**13.** "Nid y cynnwys sydd bwysicaf i ddarllenydd ond sut y cafodd darn o lenyddiaeth ei ysgrifennu." Gan gyfeirio at ddau neu dri gwaith a astudiwyd gennych, trafodwch y dyfyniad uchod.

**14.** "Gall gweithiau llenyddol roddi mwynhad i chi ar wahanol lefelau." Beth a feddylir yn eich barn chi gan awdur y dyfyniad hwn? Dylech gyfeirio at o leiaf ddau neu dri gwaith a astudiwyd gennych.

---



https://xtremepape.rs/